

## **Cwestiynau Cyffredin: Cynllun Datblygu Lleol 2018 tan 2033: Ymgynghoriad Safleoedd Ymgeisiol Ychwanegol**

Mae'r Cyngor wedi derbyn safleoedd ymgeisiol ychwanegol mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffafir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol nesaf 2018 tan 2033 (CDLI). Mae'r cynigydd yn awyddus i'r Cyngor ystyried dyraniadau tir ychwanegol ar gyfer y CDLI nesaf.

Rydym wedi ateb ychydig o gwestiynau cyffredin isod.

### **Safleoedd Ymgeisiol**

#### **Beth yw Safle Ymgeisiol?**

Safle neu ddarn penodol o dir sydd wedi'i gyflwyno i Gyngor Sir Ddinbych i'w hystyried ar gyfer dyraniad posibl at ddatblygiad yn y Cynllun Datblygu Lleol. Hoffai'r cynigydd weld y tir yn cael ei ddatblygu yn ystod rhyw gyfnod yn ystod cyfnod y cynllun. Mae'r cynigydd wedi cyflwyno'r tir i'w ystyried a'i asesu fel ei fod yn briodol i gael ei ddatblygu ar gyfer defnydd awgrymedig mewn egwyddor, yn amodol ar y manylion.

Nid yw'n gais cynllunio. Mae cais cynllunio yn parhau i fod yn ofynnol er mwyn asesu manylion y cynnig cynllunio, hyd yn oed os yw'r cynigydd yn llwyddiannus wrth gael tir wedi'i ddyrannu mewn Cynllun Datblygu Lleol.

#### **Beth yw'r Safleoedd Ymgeisiol Ychwanegol?**

Yn ystod yr ymgynghoriad ar y Strategaeth Drafft a Ffafir, gallai tiffeddianwyr ac unigolion neu sefydliadau sydd â buddiant mewn tir ofyn iddo gael ei ystyried ar gyfer ei ddyrannu yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r safleoedd ymgeisiol ychwanegol hynny yn rhannau o dir a gyflwynwyd i'r Cyngor yn ystod yr ymgynghoriad hwnnw.

# **Cwestiynau Cyffredin: Cynllun Datblygu Lleol 2018 tan 2033: Ymgynghoriad Safleoedd Ymgeisiol Ychwanegol**

## **Pwy all gyflwyno Safle Ymgeisiol?**

Gall unrhyw un gyflwyno darn o dir i'w ystyried i'w gynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2018 tan 2033.

## **Beth yw'r defnyddiau y gall y Safle Ymgeisiol ei ddyrannu ar eu cyfer?**

Gellir cynnig safle ar gyfer unrhyw fath o ddatblygiad. Mae'r mwyafrif o'r tir wedi'u cynnig ar gyfer datblygiad preswyl. Hefyd mae cynigion ar gyfer tir cyflogaeth, ynni adnewyddadwy a chymysgedd o ddefnydd cydweddol ar un safle.

Mae'n rhaid dyrannu Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau gan gynnwys pwrpas cyflogaeth a phreswyl.

## **A oes gwahaniaeth rhwng y categori tai a phreswyl?**

Nac oes. Mae'r disgrifiad o'r denfydd arfaethedig ar gynllun y safle ymgeisiol yn cael ei ysgrifennu yng ngeiriau'r cynigydd. Nid oes gwahaniaeth rhwng y categori tai a phreswyl.

## **Beth a olygir gan 'A yw'r safle yn cydymffurfio â'r strategaeth a ffafrir?'**

Mae'r holl geisiadau wedi bod yn destun asesiad sgrinio cychwynnol er mwyn canfod y safleoedd hynny sy'n cydymffurfio'n eang â'r hierarchaeth aneddiadau arfaethedig, fel rhan o'r Strategaeth Ddrafft a Ffafrir, a heb eu lleoli'n gyfan gwbl o fewn Nodyn Cyngor Technegol 15 Llywodraeth Cymru: Datblygu a Pherygl o Lifogydd', h.y. ardaloedd perygl llifogydd C2.

Lle mae'r mwyafrif o'r safle ymgeisiol wedi'i leoli ym mharth llifogydd C2 a'r cynnig yn cynnwys defnydd preswyl, ni fydd yn cydymffurfio â'r strategaeth a ffafrir.

Os yw'r safle wedi'i leoli yn y cefn gwlad agored, ni fydd yn cydymffurfio â'r strategaeth a ffafrir.

Nid yw cydymffurfio â'r Strategaeth Ddrafft a Ffafrir yn sicrhau y bydd safle ymgeisiol yn symud ymlaen ac yn cael ei gynnwys yn y CDLI nesaf.

# **Cwestiynau Cyffredin: Cynllun Datblygu Lleol 2018 tan 2033: Ymgynghoriad Safleoedd Ymgeisiol Ychwanegol**

## **A yw'r holl safleoedd ymgeisiol yn sicr o gael eu datblygu?**

Nac ydy. Bydd safle ond yn cael ei ddatblygu os caniateir caniatâd cynllunio ac os yw'r datblygwr yn awyddus i weithredu'r penderfyniad.

Bydd safleoedd ond yn cael eu dyrannu yn y Cynllun Datblygu Lleol os ydynt yn cyfrannu at y twf datblygiad gofynnol fel y cynigir yn y Strategaeth a Ffafrir. Ar hyn o bryd, mae maint y tir a gyflwynwyd o ran datblygiad preswyl yn sylweddol fwy na'r strategaeth cynnydd tai arfaethedig a nodir yn y Strategaeth drafft a ffafrir. Mae mwy o safleoedd ymgeisiol nag sydd ei angen i ddarparu'r strategaeth cynnydd tai.

## **Pam nad oes unrhyw un wedi ysgrifennu ataf i drafod y safle sydd wedi'i gyflwyno?**

Derbyniodd y Cyngor dros 200 o safleoedd yn y cam galw am safleoedd, sy'n rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Derbyniwyd 36 safle pellach yn ystod cam ymgynghori'r Strategaeth drafft a Ffafrir. Ni fydd bob un o'r safleoedd ymgeisiol yn cael eu cymryd ymlaen fel dyraniad yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae cyflwyno safle ymgeisiol yn gyfle i bartïon â diddordeb fynegi dymuniad i ddatblygu safle ar rhyw bwynt yn y dyfodol. Nid yw cyflwyno safle ymgeisiol yr un fath â chais am ganiatâd cynllunio. Nid oes gofyniad statudol i roi gwybod i gymdogion am safle ymgeisiol ac nid yw'n bosibl nac yn ymarferol i roi gwybod i bob eiddo cyfagos am safle ymgeisiol.

Mae'r Cyngor yn darparu'r Cynllun Datblygu Lleol nesaf 2018 tan 2033 yn unol â'r Cynllun Cynnwys Cymunedau sy'n amlinellu'r gofynion ymgynghori. Gellir dod o hyd i fanylion y Cynllun Cynnwys Cymunedau yn Adran 3 o Gytundeb Darparu Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Ddinbych.

# **Cwestiynau Cyffredin: Cynllun Datblygu Lleol 2018 tan 2033: Ymgynghoriad Safleoedd Ymgeisiol Ychwanegol**

## **A oes modd cyflwyno ceisiadau cynllunio yn ogystal â safleoedd ymgeisiol?**

Oes. Mae'n rhaid penderfynu ar gais cynllunio cyn gweithredu datblygiad newydd. Mae'n rhaid i gais cynllunio gydymffurfio â pholisi cenedlaethol a lleol er mwyn ei gymeradwyo.

## **Cyflwyno Sylwadau am Safleoedd Ymgeisiol Ychwanegol**

### **Sut alla i gyflwyno sylwadau am safleoedd ymgeisiol ychwanegol?**

Gallwch ymateb i'r safleoedd ymgeisiol ychwanegol drwy ddefnyddio'r Ffurflen Ymgynghori Safleoedd Ymgeisiol Ychwanegol, drwy ddefnyddio'r Porthol Ymgynghori ar-lein neu drwy ysgrifennu atom. Os ydych yn ysgrifennu atom, sicrhewch eich bod yn nodi eich enw, cyfeiriad a chyfeirnod y safle y mae eich sylwadau'n ymwneud ag ef. Ni fyddwn yn derbyn ymatebion dienw neu ymatebion heb gyfeirnod safle.

### **A oes dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad ar safleoedd ymgeisiol ychwanegol?**

Oes. **5.p.m, 13 Mawrth 2020** yw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau ar y safleoedd ymgeisiol ychwanegol.

### **At bwy ddylwn i anfon fy ymateb?**

Mae'n rhaid i chi anfon eich ymateb drwy'r post neu dros e-bost at:

Y Tîm Cynllunio Strategol a Thai

Cyngor Sir Ddinbych

Blwch Post 62

Rhuthun

LL15 9AZ

# Cwestiynau Cyffredin: Cynllun Datblygu Lleol 2018 tan 2033: Ymgynghoriad Safleoedd Ymgeisiol Ychwanegol

E-bost: [polisicynllunio@sirddinbych.gov.uk](mailto:polisicynllunio@sirddinbych.gov.uk)

## **Sut fyddwch chi'n defnyddio fy sylwadau?**

Bydd yr holl sylwadau a dderbynnir yn cael eu cynnwys yn adroddiad yr ymgynghoriad a byddant ar gael i'r cyhoedd.

Bydd eich sylwadau'n cael eu hystyried fel rhan o'r asesiad o Safleoedd Ymgeisiol.

## **Sut ydych chi'n amddiffyn fy nata personol?**

Ni fydd eich manylion cyswllt yn cael eu cyhoeddi i unrhyw drydydd partion a bydd ond yn cael eu defnyddio ar gyfer y pwrpas y broses Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych. Sylwch y bydd eich enw, sylwadau, a'ch tref/dinas ar gael yn gyhoeddus. Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, ni fydd manylion eich cyfeiriad a chyfeiriadau e-bost yn cael eu cyhoeddi.

## **Ai dyma fy unig gyfle i gymryd rhan?**

Na. Ymgynghoriad ychwanegol ar safleoedd a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar y Strategaeth Drafft a Ffafir yw hwn. Nid yw'n rhan o'r broses sy'n ofynnol gan y gyfraith i Gyngor Sir Ddinbych ei chwblhau er mwyn datblygu Cynllun Datblygu Lleol.

Cynhelir ymgynghoriad unwaith y bydd y strategaeth wedi'i datblygu ymhellach ac unwaith y bydd y meysydd datblygu a ffafir wedi'u dewis. Caiff hyn ei gwblhau yn ystod cam y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd, dyma'r ail gam yn y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol, ac mae'r cam yn ofynnol gan y gyfraith.

Y trydydd cam o'r Cynllun Datblygu Lleol yw gwrandawriad archwilio cyhoeddus, sydd hefyd yn ofynnol gan y gyfraith. Gellir hefyd cyflwyno sylwadau yn y gwrandawriad archwilio.

# **Cwestiynau Cyffredin: Cynllun Datblygu Lleol 2018 tan 2033: Ymgynghoriad Safleoedd Ymgeisiol Ychwanegol**

## **Y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Datblygu Lleol 2018 tan 2033**

### **Sut alla i gymryd rhan?**

Gallwch ddarparu ymateb i'r safleoedd ymgeisiol ychwanegol drwy ddefnyddio'r Ffurflen Ymgynghori Safleoedd Ymgeisiol Ychwanegol, drwy ddefnyddio'r Porthol Ymgynghori ar-lein neu drwy ysgrifennu atom. Os ydych yn ysgrifennu atom, sicrhewch eich bod yn nodi eich enw, cyfeiriad a chyfeirnod y safle y mae eich sylwadau'n ymwneud ag ef. Ni fyddwn yn derbyn ymatebion dienw neu ymatebion heb gyfeirnod safle.

Gallwn eich ychwanegu i'n cronfa dda er mwyn i chi gael gwybod y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch datblygiadau'r Cynllun Datblygu Lleol 2018 tan 2033. Os hoffech gael eich ychwanegu i'n cronfa ddata, ysgrifennwch atom gan nodi eich manylion cyswllt, enw a chyfeiriad, a chyfeiriad e-bost os yw'n berthnasol.

### **Nid oes arnaf eisiau cyflwyno sylwadau am y safleoedd ymgeisiol, ond rwy'n awyddus i gael gwybod y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Lleol 2018 tan 2033**

Gallwn eich ychwanegu i'n cronfa ddata er mwyn i chi gael gwybod y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol 2018 tan 2033.

Os hoffech chi gael eich ychwanegu i'n cronfa ddata, bydd yn rhaid i chi roi gwybod i ni mewn ysgrifen a darparu eich manylion cyswllt, enw a chyfeiriad, a chyfeiriad e-bost os yw'n berthnasol.

### **Ble alla i ddod o hyd i ragor o wybodaeth?**

Mae gwybodaeth am bolisi cynllunio a gwybodaeth ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol ar gael ar [www.sirddinbych.gov.uk/cdll](http://www.sirddinbych.gov.uk/cdll)

# Cwestiynau Cyffredin: Cynllun Datblygu Lleol 2018 tan 2033: Ymgynghoriad Safleoedd Ymgeisiol Ychwanegol

I ddarganfod mwy am y Cynllun Datblygu Lleol 2018 tan 2033, cliciwch y blwch o'r enw Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Y cyfeiriad gwefan uniongyrchol yw

<https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/rheoliadau-cynllunio-ac-adeiladu/cynllun-datblygu-lleol/cynllun-datblygu-lleol-newydd/cynllun-datblygu-lleol-newydd-2018-2033.aspx>

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried a byddant yn dylanwadu ar ddatblygiad y 'CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd' a'r asesiad o safleoedd ymgeisiol. Mae'r CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd yn ddrafft llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol a bydd yn cynnwys yr holl bolisiâu lleol a dyraniadau am safleoedd.

## Sut fydd yn cael ei gyhoeddi?

Caiff ei gyhoeddi yn y wasg leol, ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol megis Facebook a Twitter, ar wefan Cyngor Sir Ddinbych, drwy ymgysylltu gydag aelodau cynghorau dinas, tref a chymuned, yn ogystal â thrwy ysgrifennu at fudd-ddeiliaid a phartïon â diddordeb. Unigolion neu sefydliadau sydd wedi gofyn i gael eu cynnwys ar gronfa ddata / rhestr bostio'r Cynllun Datblygu Lleol yw partïon â diddordeb.

## Cysylltu â'r Tîm Cynllunio Strategol a Thai

### Beth yw'r cyfeiriad e-bost?

Anfonwch e-bost atom ni, y Tîm Cynllunio Strategol a Thai ar [polisicynllunio@sirddinbych.gov.uk](mailto:polisicynllunio@sirddinbych.gov.uk).

### Beth yw'r cyfeiriad post?

Y Tîm Cynllunio Strategol a Thai

Cyngor Sir Ddinbych

Blwch Post 62

# **Cwestiynau Cyffredin: Cynllun Datblygu Lleol 2018 tan 2033: Ymgynghoriad Safleoedd Ymgeisiol Ychwanegol**

Rhuthun

LL15 9AZ

**Beth yw'r rhif ffôn?**

01824 706916